


# Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Corfforaethol 2017-2022

*Gweithio gyda'n gilydd er lles dyfodol Sir Ddinbych*

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, a gall fod ar gael mewn fformatau eraill ar eich cais.**

# Arwyddbost Iaith

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, gofynnwch i rywun yr ydych yn eu hadnabod sydd yn siarad Cymraeg neu Saesneg ffonio 01824 706291

If you need further information, please ask someone you know who speaks English or Welsh to telephone 01824 706291

Jeżeli potrzebują państwo dalszych informacji, proszę poprosić kogoś, kto mówi po angilesku lub walijsku żeby zadzwonił pod numer 01824 706291

اگر آپ کو مزید معلومات درکار ہوں تو برائے مہربانی انگریزی یا ویلش زبان جاننے والے اپنے کسی واقف کار سے کہیں کہ
وہ آپ کی جانب سے فون نمبر 01824 706146 سے رابطہ کریں۔

আপনার যদি আরো তথ্যের প্রয়োজন হয়, তাহলে আপনার জানা ইংরেজী অথবা ওয়েলশ ভাষা বলতে পারেন এমন কাউকে অনুগ্রহ করে 01824 706146 নম্বরে টেলিফোন করতে বলুন

Se você precisar de nova informação, por favor pergunte alguém você sabe quem diz o galês o'r inglês para telefonar 01824 706291

اذا كنت بحاجة الى مزيد من المعلومات ، يرجى الطلب من شخص ما تعرف من يتحدث الإنجليزية أو الويلزية الهاتف 01824706291

如果您需要更多信息，请向你认识的人谁讲英语或威尔士电话：01824706291

## Blaenoriaethau Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2017-2022:

**1** Mae pawb yn cael eu cefnogi mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion

**2** Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae mynediad ganddynt ar nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein neu drwy gysylltiadau cludiant da

**3** Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i feithrin annibyniaeth a gwydnwch

**4** Mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac yn cael ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

**5** Mae pobl iau eisiau byw a gweithio yma, ac mae ganddynt y sgiliau i wneud hynny

# Croeso i Gynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022

Pan gyhoeddwyd ein Cynllun Corfforaethol diwethaf, addawom y byddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol a hirdymor i bobl a chymunedau Sir Ddinbych. Dros oes y Cynllun Corfforaethol hwnnw, darparwyd buddsoddiad o £200 miliwn gennym i wella ein hysgolion, cyfleusterau hamdden a llyfrgell, ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd. Llwyddom i gyflawni hyn a chynnal ein safle fel un o'r cynghorau gyda'r perfformiad gorau yng Nghymru ac amddiffyn gwasanaethau rheng flaen rhag toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol. Rydym bellach yn barod i ddefnyddio'r hanes blaenorol hwnnw o gyflawni i greu ein Cynllun Corfforaethol newydd: 'Gweithio gyda'n gilydd er lles dyfodol Sir Ddinbych'.

Uchelgais gyffredinol y Cynllun hwn yw sicrhau fod Sir Ddinbych yn lle ble mae trigolion a busnesau wedi eu cysylltu'n dda ac yn wydn; lle mae cyfleoedd i bobl ifanc gael tai fforddiadwy a chael sgiliau a swyddi i fyw bywydau llwyddiannus a boddhaus, lle mae pob un ohonom yn mwynhau amgylchedd deniadol ac wedi ei ddiogelu. Fel y cynllun diwethaf, mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn cynnwys camau penodol a fydd yn cael eu cyflawni dros bum mlynedd ond, efallai'n bwysicach fyth, mae'r camau hyn wedi eu llunio i gael effaith y tu hwnt i'r pum mlynedd nesaf gan ystyried cenedlaethau'r dyfodol.

Byddai angen buddsoddiad pellach o £135 miliwn i weithredu'r cynllun hwn yn llawn. Mewn cyfnod o ostyngiadau parhaus mewn cyllidebau, mae hwn yn swm uchelgeisiol, ond credwn fod uchelgais yn bwysig. Mae ein gallu i ddenu cyllid, crynhoi adnoddau gyda phartneriaid a manteisio ar allu ein cymunedau yn golygu y bydd siawns dda gennym o lwyddo.

Rydym yn cydnabod fod yn rhaid i'r cyngor weithio'n agos gyda'n partneriaid a'r gymuned ehangach a dyna pam fod y blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol hwn wedi deillio'n uniongyrchol o'n hymarferiad Sgwrs y Sir a drwy ymgynghori â phartneriaid. Mae Sir Ddinbych yn credu'n gryf mewn datblygu diwylliant gwasanaeth cyhoeddus unigol, wedi'i arwain gan gymunedau gweithredol iawn. Byddwn, felly, yn mynd ati i edrych ar atebion rhanbarthol ac isranbarthol ac yn sefydlu 'Panel Dinasyddion' parhaol a fydd â rhan allweddol wrth fonitro a helpu i lywio gweithrediad y cynllun.

Bydd Sir Ddinbych, fel pob awdurdod lleol, yn parhau i wynebu heriau, yn bennaf cyllidebau'n gostwng. Mae bron yn sicr y bydd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd, gan gynnwys y posibilrwydd o wneud toriadau i bethau y byddai'n well gennym iddynt barhau. Ond ni fydd hynny'n atal ein gweledigaeth o fod yn gyngor ardderchog, gweithio gyda'n partneriaid a chymunedau i wneud gwahaniaeth go iawn i genedlaethau i ddod. Nod y Cynllun Corfforaethol hwn yw helpu cyflawni'r uchelgais honno.



**Hugh H Evans, OBE**
**Leader of the Council**



**Dr Mohammed Mehmet**
**Chief Executive**

# Y strategaeth ariannol i gefnogi ein Cynllun Corfforaethol

Mae awdurdodau lleol yn dal i fod mewn sefyllfa ariannol anodd iawn. Mae ariannu toriadau dros gyfnod estynedig yn golygu fod llawer llai o arian ar gael gennym i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau rŵan nac yn y gorffennol. Hyd yma, rydym wedi llwyddo rheoli'r sefyllfa drwy leihau ein gwariant drwy fod yn fwy effeithlon a chyfyngu'r effaith ar y gwasanaethau rheng flaen y mae ein cymunedau yn eu gwerthfawrogi.

Nid ydym yn disgwyl i'r sefyllfa ariannol wella dros y pum mlynedd nesaf, ac rydym yn credu y bydd angen i ni barhau i wneud arbedion o £5 miliwn fan lleiaf bob blwyddyn hyd y gellir rhagweld. Yn amlwg, mae hyn yn mynd i gyfyngu ar yr hyn y gall y cyngor ei wneud, a bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn ynglŷn â sut y byddwn yn gwneud yr arbedion hynny. Bydd yn rhaid i'r cyngor flaenoriaethu ei adnoddau yn ofalus gan na fydd yn gallu parhau i ariannu pob gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd ar yr un lefel.

Mae pwysau ariannol yn debyg o barhau mewn meysydd fel gofal cymdeithasol ac ysgolion yn ogystal â chostau parhaus yn gysylltiedig â staff, adeiladau a chludiant.

## Ein huchelgais

Er gwaethaf y sefyllfa anodd sy'n ein hwynebu, mae gan y cyngor hwn uchelgais bendant i gynnal safon ei wasanaethau a mynd i'r afael â materion pwysig a godir gan drigolion. Rydym hefyd eisiau parhau i drawsnewid safon adeiladau ein hysgolion, gwella ein ffyrdd a'n pontydd a chynyddu'r stoc o dai fforddiadwy yn y sir. Rydym yn credu ein bod yn bwysig bod yn glir ynglŷn â chost bosibl cyflawni'r uchelgeisiau hyn, sut y gallem dalu amdanynt a beth fydd y goblygiadau i'r cyngor.

Mae'r cynllun felly'n amlinellu faint o arian ychwanegol rydym yn awyddus i'w fuddsoddi ar ein blaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau. Ni fydd yn hawdd ei gyflawni a bydd gan bob un o'n Cynghorwyr ddewisiadau anodd iawn i'w gwneud i gwrdd â'u huchelgeisiau gyda'r buddsoddiad ychwanegol sydd angen.

## Faint fydd hyn yn ei gostio?

Mae'n Cynllun Corfforaethol yn egluro'n huchelgeisiau a'r blaenoriaethau y gellir eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar rai o'r blaenoriaethau hyn, mae angen cyllid refeniw ar eraill a gellir cyflawni rhai heb gost ychwanegol. Rydym yn credu bod angen i ni fuddsoddi yn rhywle yn y rhanbarth am gost ychwanegol o £135 miliwn o bunnoedd ar ein blaenoriaethau corfforaethol dros y pum mlynedd nesaf, os ydym am gyflawni popeth yr hoffem ni.

Mae hwn yn swm sylweddol, ac yn ychwanegol i unrhyw arian rydym eisoes wedi ei ymrwymo i'r meysydd blaenoriaeth hynny. Dyhead yw'r £135 miliwn hefyd, ac mae'n seiliedig ar ragdybiaethau presennol am ein sefyllfa ariannol dros y pum mlynedd nesaf. Os bydd ein sefyllfa yn newid, mae rheolaethau a phrosesau ar waith i'n galluogi i adolygu ein strategaeth ariannol yn ystod oes y Cynllun Corfforaethol.

Mae ein syniadau presennol o ran yr hyn y gallem wario'r arian ychwanegol arno wedi eu hamlinellu yn yr adrannau ar bob blaenoriaeth. Ni fydd angen arian cyfalaf sylweddol ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau, ond byddai rhai – yn enwedig gwella addysg, ffyrdd a thai – yn amhosibl hebddo. Gallai blaenoriaethau eraill, fel amgylchedd diogel ac wedi ei amddiffyn, gynnwys gwneud pethau yn wahanol, neu efallai y bydd angen cyllid refeniw ychwanegol.

I dalu am y buddsoddiad cyfalaf a nodwyd, bydd angen i ni ymrwymo cyllideb refeniw ac arian ar gyfer y blaenoriaethau. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, bydd hyn yn golygu bod llai o arian ar gael ar gyfer meysydd heb eu nodi'n flaenoriaethau.

Yn ystod 2017/18 clustnodwyd £1 miliwn o'n cyllideb refeniw i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol newydd, ond rhaid i ni amcangyfrif fod angen £1 miliwn arall o'r gyllideb i ariannu'r blaenoriaethau a nodwyd. Bydd yn anodd cyflawni hyn wrth i gyfanswm cyllideb y cyngor ostwng.

# Y strategaeth ariannol i gefnogi ein Cynllun Corfforaethol

## Beth yw'r risgiau?

Fforddiadwyedd yw'r risg fwyaf a bydd yn ystyriaeth allweddol pan fyddwn yn asesu pob strategaeth unigol sy'n cyfrannu at y Cynllun. Bydd pob amser risgiau ynghlwm â gwariant cyfalaf, ond rydym yn deall y risgiau hynny ac yn hyderus bod modd cyflawni'r cynigion. Rydym yn deall hefyd fod peryglon os na fyddwn yn buddsoddi mewn rhai o'r meysydd blaenoriaeth.

Os na fyddwn yn buddsoddi yn ein blaenoriaethau, bydd ein asedau yn dirywio, mae'n bosibl na fydd gwasanaethau yn gallu gwella, a byddwn yn gwario mwy o arian i gynnal safonau presennol. Er enghraifft, heb fuddsoddiad ychwanegol, byddai'n rhaid i ni dderbyn y byddai cyflwr ein ffyrdd a'n pontydd yn dirywio, byddai adeiladau ein hysgolion yn dirywio ac ni fyddem yn gwella cyflenwad tai eraill i ddiwallu anghenion cymunedau lleol.

Os na fyddwn yn buddsoddi yn ein blaenoriaethau, ni fyddwn yn gwireddu ein huchelgeisiau. Mae angen llawer o fuddsoddiad ar ein huchelgeisiau, ac mae'n bosibl y bydd angen rhoi mwy o flaenoriaeth neu ganolbwynt gwahanol ar eraill. Dylai'r ddau ddull gynnig gwelliant, boed mewn darpariaeth addysgol, tai, gwell amgylchedd naturiol, neu drwy'r ffordd rydym yn cysylltu ac yn cyfathrebu gyda chymunedau.  Rydym hefyd yn credu y bydd ein huchelgais i fuddsoddi £135 miliwn yn Sir Ddinbych dros y pum mlynedd nesaf yn cael effaith sylweddol ar yr economi leol. Byddwn yn sicrhau gymaint o fudd â phosibl i Sir Ddinbych o'r gwariant hwn, er enghraifft, drwy weithio gyda'r rhai sy'n cwblhau prosiectau adeiladu fel bod cymaint o bobl leol a phosibl yn cyflawni'r gwaith.

## Sut fedrwn ni fforddio hyn?

Er bod £135 miliwn yn swm mawr, ni fyddai'n rhaid i'r cyngor ddarparu'r holl wybodaeth ei hun. Disgwyliwn y bydd grantiau ar gael gan Lywodraeth Cymru i helpu ariannu'r gwaith a gynllunnir i wella ein hysgolion a'n hamddiffynfeydd llifogydd. Rydym hefyd yn bwriadu defnyddio incwm o renti tai i helpu ariannu tai cyngor newydd.

Mewn gwirionedd, credwn mai oddeutu £71 miliwn o'r £135 miliwn y bydd yn rhaid i'r cyngor ei gyfrannu. Byddai rhywfaint o'r £71 miliwn hwn yn dod o gronfeydd werth gefn a drwy werthu asedau. Byddai cyfran yn cael ei greu drwy fenthyca darbodus. Bydd yn rhaid i'r benthyca ac unrhyw ymrwymiadau refeniw eraill gael eu diwallu o gyllid refeniw ac felly bydd angen gwneud penderfyniadau i ymrwymo cyllidebau refeniw i ariannu'r blaenoriaethau, gan olygu y bydd llai ar gael ar gyfer meysydd pwysig eraill.

Mae gennym brofiad o ddefnyddio benthyca darbodus yn synhwyrol ac yn ofalus ac rydym wedi ei ddefnyddio yn llwyddiannus yn y gorffennol i fuddsoddi cyllid ychwanegol sylweddol yn ein ffyrdd, ysgolion a'n stoc tai. Mae gennym fesurau ar waith i sicrhau fod pob penderfyniad buddsoddi cyfalaf unigol rydym yn eu gwneud yn seiliedig ar achosion busnes cadarn a bod y sefyllfa ariannu dyledion cyffredinol yn cael ei monitro'n ofalus ac yn parhau'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae ein cynlluniau a'n prosesau cyllideb refeniw wedi eu hen sefydlu a byddant yn ein galluogi i reoli fforddiadwyedd.

## A yw pawb yn y cyngor yn cefnogi'r ymagwedd hon?

Datblygwyd y strategaeth ariannol uchod gyda'n Cynghorwyr. Bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut y mae'r cyngor yn gwario ei arian mewn hinsawdd ariannu anodd. Os bydd amgylchiadau'n newid, a bod y cynlluniau hyn yn dod yn anfforddiadwy, mae gennym yr hyblygrwydd i newid lefelau ein gwariant yn unol â hynny.

Wrth i ni gyflwyno'r newidiadau radical hyn, bydd y bum mlynedd nesaf yn gyfnod cyffrous ond hefyd yn heriol i'r cyngor. Gyda'r lefelau hyn o fuddsoddiad ychwanegol, rhaid i ni gyflwyno gwelliannau sylweddol. Os byddwn yn llwyddo – ac rydym yn credu y gwnawn ni – bydd Sir Ddinbych yn barod am y dyfodol, ac yn parhau i fod yn un o'r lleoedd gorau i fyw, dysgu, gweithio ac ymweld ag o yn y DU.

# Sgwrs y Sir

## Sut cafodd y cynllun ei ddatblygu

Yn ystod haf 2016, holodd Cyngor Sir Ddinbych bobl am eu dyheadau hirdymor ar gyfer dyfodol eu cymunedau, drwy Sgwrs y Sir. Galluogodd hyn, ynghyd ag ystadegau, i ni ddrafftio rhestr o ddyheadau roedd trigolion Sir Ddinbych yn eu hystyried yn bwysig. Ddiwedd 2016, gofynnom i bobl Sir Ddinbych ddewis lefel pwysigrwydd pob dyhead, a chafwyd dros 1500 o ymatebion. Yn dilyn yr adborth a gafwyd dros ymarferion Sgwrs y Sir, llwyddom nodi blaenoriaethau ar gyfer Sir Ddinbych wrth symud ymlaen.

Cynhaliwyd trafodaethau dros haf 2017 gyda staff Cyngor Sir Ddinbych a chydweithwyr o sefydliadau eraill (gan gynnwys Iechyd, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru) i greu gweithredoedd dan bob blaenoriaeth, cyn cyflwyno'r blaenoriaethau newydd arfaethedig i Aelodau Etholedig Sir Ddinbych. Yna cafodd y blaenoriaethau a'r gweithredoedd hyn eu mabwysiadu gan y Cyngor i fod yn rhan o Gynllun Corfforaethol Sir Ddinbych

## Ymgynghori a Monitro Pellach

2017-2022.
Byddwn yn parhau â Sgwrs y Sir drwy gydol oes y Cynllun Corfforaethol hwn drwy Adroddiadau Blynyddol, gan egluro'r hyn y mae disgwyl i ni eu darparu yn ystod pob blwyddyn i gefnogi ein blaenoriaethau, a cheisio barn o ran sut y dylem fynd i'r afael â'n amcanion.

Er mwyn cyfrannu at y drafodaeth, gwneud sylwadau ac awgrymiadau, neu ofyn am fwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Cynllunio a Pherfformio Strategol:


**E-bost:** timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

**Ffôn:** 01824 706101 (dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8.30am a 5pm)

**Ysgrifennu atom:** Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ

**Ar-lein:** www.sirddinbych.gov.uk/cynlluncorfforaethol

# Tai:

## Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n bodloni eu hanghenion









Cydnabyddir fod angen sicrhau fod tai ar gael i ddiwallu anghenion trigolion Sir Ddinbych a bod hon yn ffactor bwysig wrth gadw neu ddenu pobl ifanc i fyw yn yr ardal. Yn ystod y Cynllun Corfforaethol diwethaf, gwnaethom ymrwymiad i ddatblygu argaeledd tai ac rydym eisiau parhau i ehangu ar y llwyddiant hwnnw yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol newydd hwn.

## Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- **Cefnogi datblygiad 1000 yn rhagor o gartrefi yn Sir Ddinbych. Bydd hyn yn cynnwys:**
  - **Bydd 170 o'r rhain yn gartrefi'r Cyngor**
  - **Bydd 260 o'r rhain yn gartrefi fforddiadwy a ddarperir gan ddatblygwyr preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.**
  - **Tai Gofal Ychwanegol.**
  - **Tai arbenigol newydd i gefnogi pobl gydag anableddau ac anghenion cefnogaeth lefel isel.**
- **Cefnogi pobl ifanc i gael mynediad i dai addas y gallant eu fforddio.**
- **Gwneud defnydd unwaith eto o 500 eiddo gwag a pherfformio ymhlith y gorau yng Nghymru.**

## Os byddwn yn llwyddo, disgwyliwn weld:

- **Ystod eang o lety ar gael i gwrdd â gwahanol anghenion.**
- **Llai o bobl mewn cartrefi gofal preswyl.**
- **Mwy o bobl yn byw yn eu cartrefi eu hunain am hirach (gan gynnwys pobl gydag anghenion cefnogi).**
- **Mwy o bobl ifanc (hyd at 35 oed) yn gallu fforddio tai.**
- **Rhagor o anheddau gwag yn cael eu hailddefnyddio**

# Cymunedau wedi eu cysylltu:

## Mae cymunedau wedi eu cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da



Mae Sir Ddinbych yn deall fod mynediad at nwyddau a gwasanaethau yn allweddol i gynnal annibyniaeth pobl. Fodd bynnag, yn dibynnu ble rydych yn byw, nid yw hyn bob amser yn hawdd. Yn ystod cyfnod Cynllun Corfforaethol newydd, bydd Sir Ddinbych yn ei gwneud yn flaenoriaeth i sicrhau fod cymunedau ledled y sir wedi eu cysylltu a bod mynediad ganddynt at nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.



## Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- **Galluogi pobl yn well i deithio i'r gwaith, addysg a gwasanaethau.**
- **Buddsoddi mewn ffyrdd a phontydd i gynnal isadeiledd hyfyw, cynaliadwy.**
- **Darparu band eang cyflym iawn a rhwydweithiau symudol i bawb.**
- **Sicrhau fod gwybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor yn hygyrch ar-lein lle bo modd. Byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid.**
- **Targedu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod wedi eu heithrio'n ddigidol fel fod ganddynt y sgiliau a'r modd i ddefnyddio gwasanaethau digidol.**
- **Gwella isadeiledd i'w gwneud yn haws i gynnal digwyddiadau.**



## Os byddwn yn llwyddo, disgwyliwn weld:

- **Gwell cysylltiadau teithio ar draws y sir**
- **Band eang cyflym iawn a rhwydweithiau symudol ledled y sir, gan gynnwys 4G a 5G.**
- **Cyfran uwch o drosglwyddiadau'r Cyngor yn digwydd ar-lein.**
- **Yr holl drigolion yn fedrus ac yn hyderus yn cael mynediad at nwyddau a gwasanaethau ar-lein.**



# Cymunedau Cryf:

## Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i fagu annibyniaeth a chadernid



Ein nod yn Sir Ddinbych yw hyrwyddo iechyd a lles pobl a'u hannog i aros mor annibynnol â phosibl

Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni weithio gyda phawb yn y gymuned, i sicrhau fod rhwydweithiau cefnogaeth cryf ar waith a sicrhau fod pobl yn cael eu cynnwys fwy mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu lles i'r dyfodol. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i sicrhau y diogelir pobl mewn perygl o gamdriniaeth neu gamfanteisio.



## Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- **Cefnogi pobl i gynllunio a llunio eu cymunedau.**
- **Darparu gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd sy'n cefnogi annibyniaeth a gwydnwch pobl.**
- **Sicrhau bod pobl yn cymryd rhan wrth lunio a gwella gwasanaethau.**
- **Gweithredu i leihau Cam-Drin Domestig**
- **Sicrhau fod pob galwr yn Sir Ddinbych yn cael cefnogaeth dda.**
- **Sicrhau fod oedolion a phobl hŷn sydd angen iechyd a gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych yn profi gwasanaeth di-dor.**



## Os byddwn yn llwyddo, disgwyliwn weld:

- **Grwpiau cymunedol ffyniannus.**
- **Bydd pobl yn fwy gwydn ac annibynnol.**
- **Trigolion yn cael eu hysbysu a'u grymuso i ddylanwadu ar wasanaethau.**
- **Pawb yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau.**
- **Pobl yn gallu byw yn eu cartrefi eu hunain am hirach.**
- **Pobl ddiamddiffyn yn cael eu cefnogi gan eu cymuned.**



# Amgylchedd:

# Deniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd



Nod Sir Ddinbych yw sicrhau fod yr amgylchedd yn ddeniadol ac yn cael ei ddiogelu, ond hefyd yn cefnogi lles cymunedol a ffyniant economaidd.  I gyflawni hyn, byddwn yn lleihau ein hôl troed carbon a chynyddu defnydd o adnoddau adnewyddadwy ledled y sir.  Rydym hefyd yn bwriadu cynyddu gwerth bioamrywiaeth y sir drwy ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd agored i newid er lles bywyd gwyllt a'r bobl sy'n byw ac yn ymweld â Sir Ddinbych. Ynghyd â hyn, nod Sir Ddinbych yw codi proffil y sir fel lle i gynnal digwyddiadau awyr agored sy'n manteisio ar ein hamgylchedd unigryw.



## Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- **Lleihau allyriadau carbon o asedau'r Cyngor gan o leiaf 15% erbyn 2022.**
- **Gwella effeithlonrwydd ynni tai'r Cyngor.**
- **Cynyddu darpariaeth ynni adnewyddadwy ar draws y sir.**
- **Lleihau nifer yr eiddo mewn perygl o lifogydd yn Sir Ddinbych.**
- **Cynyddu safon bioamrywiaeth cynefinoedd pwysig a rhywogaethau ar draws y sir.**
- **Codi proffil y sir fel lleoliad i ymweld ag o, er mwyn manteisio ar botensial economaidd Sir Ddinbych.**



## Os byddwn yn llwyddo, disgwyliwn weld:

- **Gwelliannau mewn sgoriau ynni tai Cyngor, gan gyflawni sgôr ynni 'Rhagorol' ym mhob cartref newydd.**
- **Dyblu'r ynni rydym yn ei ddefnyddio yn adeiladau'r cyngor sy'n dod o ffynonellau adnewyddadwy.**
- **Lleihau nifer yr eiddo mewn perygl o lifogydd yn Sir Ddinbych.**
- **Cynyddu niferoedd y rugiar ddu, môr-wenoliaid bach, gwiberod, madfallod y tywod a gwenyn.**
- **18,000 yn rhagor o goed ar draws y Rhyl a Dinbych.**
- **Cynnydd yng ngwerth gwariant twristiaeth yn y sir.**



# Pobl Ifanc:
# Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny










Rydym am i Sir Ddinbych fod yn fan lle mae pobl ifanc yn gallu ac eisiau ffynnu. I wneud hyn, mae'n rhaid bod darpariaeth addysg ragorol yn gweithio naill ochr â darpariaeth cyflogaeth gref i bawb. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid, ysgolion a busnesau i wneud i hyn ddigwydd.

## Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- **Gweld pob plentyn sy'n cyflawni'r safon a ddisgwylir ar ddiwedd yr ysgol gynradd (Lefel 4, Cyfnod Allweddol 2) yn cyflawni 5 TGAU A*-C (Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4), gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg (iaith 1af) a Mathemateg, erbyn diwedd yr ysgol gynradd.**
- **Parhau i foderneiddio ysgolion drwy raglen Ysgolion yr 21ain ganrif.**
- **Helpu pobl ifanc i ddatblygu 'sgiliau byw' ymarferol ac ymddygiad sy'n cyfrannu at iechyd a lles da.**
- **Darparu cefnogaeth i rieni i roi'r cychwyn gorau i'w plant.**
- **Darparu cyngor gyrfaoedd a mentora effeithiol i bobl ifanc.**
- **Rhoi cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau bywyd a gwaith drwy gyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith ystyrlon.**
- **Datblygu rhagor o gyfleoedd gwaith ar gyfer pobl ifanc.**

## Os byddwn yn llwyddo, disgwyliwn weld:

- **Pobl ifanc yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial.**
- **Cyfleusterau ysgol modern sy'n gwella dysg disgyblion ymhellach.**
- **Mae pobl ifanc yn wydn ac mae ganddynt y sgiliau cywir i ffynnu.**
- **Gall rhieni roi'r dechrau gorau i'w plant yn eu bywydau, i dyfu i fod yn oedolion annibynnol a boddhaus.**
- **Mae pobl ifanc yn gwneud y dewisiadau cywir i'w paratoi am y gwaith maent yn dymuno ei wneud, a theimlo'n hyderus a'u bod yn cael cefnogaeth dda i ddechrau gweithio.**
- **Cyfleoedd mentora a gweithio o safon i helpu datblygu sgiliau ymhellach.**
- **Cyflogaeth sy'n apelio i bobl ifanc ac yn cyd-fynd â'u sgiliau.**

# Egwyddorion allweddol ym mhopeth a wnawn

## Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn mabwysiadu ymagwedd y credwn fydd yn arfogi'r cyngor i ddarparu cynnydd sylweddol i bawb, drwy leihau'r anghydraddoldeb presennol.

Mae egwyddorion cydraddoldeb wedi eu hymgorffori ar draws swyddogaethau a gwasanaethau'r Cyngor.

Yn ystod oes y cynllun hwn a'r tu hwnt, byddwn yn sicrhau fod pob prosiect a newydd a meysydd gwaith yn:

- **Ymgysylltu, lle bo hynny'n briodol, gyda grwpiau sy'n cynrychioli pobl gyda nodweddion a ddiogelir.**
- **Ystyried cyfyngiadau mynediad ffisegol, yn benodol gydag adeiladau newydd, ond hefyd mewn perthynas â mynediad at wybodaeth a gwasanaethau.**
- **Ystyried pa mor briodol yw'r cyfleusterau sydd ar gael gennym yn stad y Cyngor at ddefnydd gan y bobl hynny sydd â nodweddion a ddiogelir.**
- **Ymgysylltu, herio a, lle bo modd, dileu rhwystrau rhag cyfleoedd (gan gynnwys gwaith) ar gyfer y rhai hynny sydd â nodweddion a ddiogelir.**
- **Beirniadu bwlio ac aflonyddu yn ymwneud â chasineb.**




## Gweithio i sicrhau fod y Gymraeg yn ffynnu yn Sir Ddinbych

Rydym wedi llunio gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg:

- **Mae Sir Ddinbych yn sir ddwyieithog yn bennaf, gyda diwylliant a threftadaeth cyfoethog. Rydym yn falch iawn o'r ffaith hon ac eisiau i'r balchder hwn gael ei adlewyrchu yn ein hymgysylltiad o ddydd i ddydd gyda chymunedau, trigolion a'n staff.**
- **Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod egwyddorion Safonau'r Gymraeg yn ategu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd; mae arnom eisiau i bobl allu cael mynediad i wasanaethau drwy eu dewis iaith yn naturiol, ym mhob cam o'u bywydau.**
- **Mae arnom eisiau gwella diwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i'n staff weithio yn y Gymraeg a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.**
- **Mae arnom eisiau gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith lewyrchus yn Sir Ddinbych.**
- **Mae gennym uchelgais i fod yn arweinwyr sector yn natblygiad y Gymraeg yng Nghymru.**





# Cyngor Sir Ddinbych

## Cynllun Corfforaethol 2017-2022

*Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol Sir Ddinbych*